# Cofnodion 12fed cyfarfod Grŵp Dŵr Croyw CGBC

**Cynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth am 10:30am ddydd Iau 1 Mai 2014**

**Yn bresennol:**
Tristan Hatton-Ellis (THE) Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (Telegynadledda)
Huw Jones (HJ) CNC
Janet Buckles (JB) CNC
Barbara Spence (BS) CNC
Adrian Lloyd Jones (ALlJ) Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
Hannah Powell (HP) Cyngor Sir Powys
Kyle Young (KY) CNC

**Yn bresennol trwy delegynadledda:**
Dusi Thomas (DT) Dŵr Cymru
Kris Roberts (KR) Cyngor Torfaen, CGBLlau
Jeremy Biggs (JBG)
Nick Bialynicki Birula (NB)

**Ymddiheuriadau:**
Robin Woodyatt
Emma Guy
Dai Roberts

**1. Croeso a chyflwyniadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**Camau gweithredu heb eu cymryd:**
**6.4 Pawb:** Gwybodaeth ar gyfer adran dŵr croyw gwefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i gael ei hanfon at JB erbyn diwedd mis Mehefin.

**Materion sy'n codi:**
**3.5 Y Gyfarwyddeb Rhywogaethau Estron**
- Yn mynd ymlaen yn gadarnhaol, bydd rheoliadau wedi'u sefydlu cyn bo hir.
- Bydd amserlen gyfnodol i'r camau gweithredu
- Gellir diwygio'r rhestr fel ei bod yn briodol i bob aelod-wladwriaeth.

**Cam gweithredu: THE** i gysylltu ag Iwan ?

**6.1 Offer Siltio**
- Yn canolbwyntio ar iseldiroedd.
- Yn canfod siltio difrifol felly mae Cymru yn ymddangos yn uchel.
- Gellir anfon dolenni ar gyfer y wefan at Sean McHugh.

**6.3 Taenlen dystiolaeth**
- Adran dystiolaeth dŵr croyw yn lansiad y daenlen yng Nghaerdydd.

**9.2 Rôl CGBLlau yn y dyfodol**

- Strategaeth CGBLl Torfaen wedi'i chwblhau.

**Cam gweithredu: ALlJ** i ddilyn i fyny.

**10.1 Cypermethrin**

- Mae gan CNC ddatganiad sefyllfa erbyn hyn. Dylid osgoi cypermethrin, ond mae'n bosibl y bydd ei angen ar gyfer rhai plâu pryfed. Bydd angen cais am randdirymiad.
- Mae gan y Freshwater Habitats Trust gysylltiadau mewn perthynas ag academyddion a rheoleiddwyr.

**Cam gweithredu: JBG** i ymgynghori â BS ac ysgrifennu crynodeb i gael ei gylchredeg i'r Grŵp Dŵr Croyw.

**10.2 Cyllid y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr gan Dŵr Cymru (DT)**

- £79,000 yn weddill, ond nifer y ceisiadau wedi bod yn fach. Mae'n bosibl bod angen mwy o gyhoeddusrwydd.
- Gallai cyllid tebyg fod ar gael eto os yw Ofwat yn cymeradwyo'r cynllun busnes.

**3. Diweddariad ar newid CNC**

- Strwythurau drafft ar gyfer Gweithrediadau yn bodoli yn awr.
- Yr ardaloedd fydd Gogledd, Canolbarth, De-ddwyrain a De-orllewin.
- Penodiadau rheolwyr haen ganol (recriwtio Haen 4) ar y gweill.
- Caiff rheolwyr lefel ardal gweithrediadau eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2015.
- Caiff timau seiliedig ar leoedd eu cynorthwyo gan dimau arbenigol.

**4. Cynllun Corfforaethol CNC**

- Mae'r cynllun corfforaethol ar gael ar y wefan newydd.
- Mae'r cynllun busnes yn cael ei baratoi, caiff ei roi ar waith gan gynlluniau cyflenwi'r Cyfarwyddiaethau.
- Bydd timau'n cyflenwi trwy'r amcanion.

**5. Diweddariad ar waith a phrosiectau**

**5.1 Cynllun Gwaith Dŵr Croyw ar gyfer Cynllun Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru:** Cafodd fersiwn drafft ei gylchredeg o'r blaen gan THE, cafwyd ychydig o sylwadau. Rhaid iddo gael ei gymeradwyo a'i anfon i'r wefan.

**5.2 Camau Gweithredu Creu/Adfer Cynefinoedd:**
Mapiau ar gyfer cynefinoedd llynnoedd: fersiwn drafft wedi'i gylchredeg, i gael ei adolygu o bosibl yn 2016.

**5.3 Afonydd a Blaenddyfroedd:**
Anodd trafod blaenoriaethu, dylid ei ohirio tan y flwyddyn nesaf. Gallai'r ddogfen llynnoedd ddarparu fframwaith.

**6. Blaenoriaethu CGB Llynnoedd**

**6.1** Ardaloedd dŵr croyw pwysig i gael eu trafod gyda **7.** (JBG)
**6.2**

- Sut fydd cyrff dŵr y tu allan i ACA yn cael eu cysylltu â statws y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr? Angen nodi cyrff dŵr â blaenoriaeth. (KY)
- Mae'n bosibl na fydd statws 'da' yn cyflawni ar gyfer bioamrywiaeth, efallai na fydd dull prosesau naturiol yn ddigon penodol
- Gellid defnyddio'r un egwyddorion ar gyfer blaenddyfroedd bach ag ar gyfer merddyfroedd.
- Y nod yw gwarchod safleoedd o ansawdd da na fydd y Gyfarwyddeb, o bosibl, ddim yn ymdrin â hwy.
- Gallai ddarparu strategaeth blaenoriaethu blaenddyfroedd/dal-ddyfroedd, mae swyddogaeth blaenddyfroedd yn greiddiol.
- Mae'n bosibl na cheir arian i wella statws da i statws uchel.
- Mae'n bosibl y bydd mapiau blaenoriaeth yn helpu i ganolbwyntio ar fannau arbennig o ran swyddogaethau'r ecosystem bioamrywiaeth.
- Posibilrwydd o drefnu gweithdy?

- Dim ond 36% (llai na hanner) o'r cyrff dŵr yng Nghymru sydd â statws da. Angen cysylltu'r Gyfarwyddeb a thargedau bioamrywiaeth a gwarchod cyrff dŵr sydd â statws da ar hyn o bryd, yn hytrach nag adfer rhai gwael.

**Camau gweithredu:**
**JBG** i ddosbarthu dogfen yn dangos lleoliadau da.
**JBG a KY** Amlinellu dull, yn seiliedig ar erthygl Classic Bioscience ar waith adfer afonydd seiliedig ar brosesau.
**THE** Blaenoriaethu blaenddyfroedd i gael ei gynnwys yn agenda'r cyfarfod nesaf.

**6.3 Dogfen Llynnoedd**
Mae'r ddogfen yn hawdd ei darllen ac yn llawn gwybodaeth.
Mae angen atodiad a rhestr lawn o'r safleoedd gwarchodedig.
Dylid galw pyllau dŵr yn byllau dŵr o ansawdd ecolegol uchel (y 20% uchaf).
Gallai'r cam nesaf bennu rhai ymgeiswyr safleoedd blaenllaw i'r Freshwater Habitats Trust.

**7. Arolwg Llynnoedd**
Ail-ganfuwyd dwy rywogaeth y tybiwyd iddynt gael eu colli yng Nghymru, sef *Carex rudis* yng Nghors Goch ac *Utricularia* ? mewn ffos yng Ngarndolbenmaen.
Mae Llyn Eiddew Mawr yn y Rhinogydd yn ymadfer o asideiddio.
Daethpwyd o hyd i *luronium natans* yn Llyn Dinas.
Gwnaethpwyd gwaith monitro asesu cyflwr mewn llynnoedd eraill.

**8. Gweithdy Bylchau yn y Dystiolaeth**
**8.1** Cynhaliwyd diwethaf ar 30 Ebrill 2014 ym Mhrifysgol Caerdydd, nifer da yn bresennol (50+)
**8.2** Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys:

- Cyfuno'r ddogfen
- Trosglwyddo gwybodaeth
- Adolygiadau o'r llenyddiaeth
- Fformatau hygyrch i ymarferwyr weithredu arnynt
- Arian cronfa Sgiliau'r Economi Wybodaeth ar gael ar gyfer prosiectau sy'n cynnig sylfaen dystiolaeth dda
- Defnydd o'r rhestr o fylchau yn y dystiolaeth a rhestr prosiectau gan academyddion
- Myfyrwyr prosiect fel adnodd.

**8.3**

- Mae'n bosibl y bydd prosiectau llai yn addas ar gyfer prosiectau israddedig a gradd Meistr
- Mae'n bosibl y bydd problemau gyda phrosiectau aml-haen, ond gellid rhannu rhai prosiectau.
- Dylid adolygu'r rhestr prosiectau.
- Dylai bylchau ddarparu canlyniadau ar gyfer polisïau o ran rheoli adnoddau naturiol.
- Angen strwythur clir i'r broses flaenoriaethu.
- Mae perygl y bydd rhestr o fylchau'n peidio â gwneud yn glir beth mae cyfleoedd yn darparu gwybodaeth ar ei gyfer.
- Mae THE angen cysylltiadau i'r agenda bolisi, a pha newidiadau polisi fydd o bosibl yn cael eu hystyried.
- Ni all yr amserlen gynnwys ymchwil sylfaenol, ond byddai'n addas ar gyfer adolygiad o'r llenyddiaeth.
- Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i gynnwys ychwanegiadau ymarferol mewn prosiectau mawr sy'n bodoli eisoes.
- Bydd dogfennau byw ar agor ar gyfer ychwanegiadau ac awgrymiadau.

**Cam gweithredu:** **HP** i roi manylion prosiect pelenllys i **JBG**

**8.4** Nododd **NB** nad oes unrhyw wybodaeth ynghylch cyfleoedd datblygu ar gael ar y daenlen.
**Cam gweithredu:** **NB** i anfon testun at **THE** i gael ei gynnwys.

**9. Pysgodfeydd cynaliadwy yng Nghymru (dogfen CNC)**

- Bellach ar gael ar wefan CNC.
- Pryderon ynghylch monitro pysgodfeydd a chynnydd yng nghyfraniad genweirwyr.

**10. Cynllun Gwaith Dŵr Croyw**

**10.1 Blaenoriaethu Llynnoedd**

- Is-bwyllgor i edrych ar lunio dull amlinellol o flaenoriaethu, **JBG a KY** i arwain. **THE** i gynrychioli CNC. Rhagfyr 2015 yw'r dyddiad cau ond mae angen llunio amlinelliad erbyn diwedd mis Mehefin ar gyfer y cyfarfod cyntaf.
- Rhannu'r ddogfen flaenoriaethu, prosiect allweddol a cham gweithredu er mwyn cael ceisiadau perthnasol.
- Defnyddio mapio blaenoriaethau ym musnes CNC. Dylai fod yn hygyrch, angen rhannu data CNC a Chanolfannau Cofnodion Lleol a

hybu eu defnyddio. Gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer targedu adnoddau mewn ardaloedd ag angen critigol. A ellir cynnwys y rhain fel tystiolaeth mewn cynllun anhyblyg y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr?

**Cam gweithredu:** Angen ffurfioli a chyhoeddi'r ddogfen Llynnoedd ar frys.
**THE** i'w chwblhau, ond bydd angen sylwadau.

**10.2 Dogfen pyllau** dŵr

- Dogfen pyllau dŵr â blaenoriaeth wedi cynnwys madfallod dŵr cribog.
- Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid yn gwneud gwaith modelu gyda chyllid o Loegr.

**10.3 Cronfa Ecosystemau Gwydn:**

- Mae'n bosibl y bydd £6 miliwn ar gael.

**10.4 Rheoli dalgylch cyfan:** Ychydig o lynnoedd yn y dalgylchoedd a ddewiswyd felly nid ydynt yn ardaloedd pwysig ar gyfer pyllau dŵr.
**Cam gweithredu: THE a KY** i drafod

**10.5 Rheoli Cynefinoedd a Safleoedd**

- Dim camau gweithredu newydd yn y cynllun gwaith.

**10.6 Categoreiddio ac adfer cynefinoedd:**

- Mae gan rai grwpiau ecosystemau gysylltiad uniongyrchol â phrosiectau adfer. Dylai'r Grŵp Dŵr Croyw ymwneud â thair ardal dreialu i greu cynlluniau rheoli adnoddau naturiol yn nalgylchoedd afonydd Tawe, Dyfi a Rhondda.
- Bydd y cam cyntaf yn fewnol ond bydd ar gael yn ehangach wedyn, dylai ganolbwyntio ar broses yn hytrach na chanlyniadau bioamrywiaeth.
- Gellid cylchredeg canllawiau ynghylch rheoli cyrsiau dŵr, pyllau dŵr ac ati.
- Llai o ganllawiau ar gael ar ffurf gyfunol ar gyfer blaenddyfroedd.

**Camau gweithredu:**
**BS** i anfon manylion cyswllt Dyfi at Kyle, wedyn cânt eu cylchredeg.
**BS** i gylchredeg mapiau Arolwg Ordnans yn dangos ffiniau.
**THE** i gylchredeg dolenni i wefan y Freshwater Habitat Trust.
**KR a CGBLlau** i nodi bylchau.

**10.7 Cronfa Dreftadaeth y Loteri**

- Cais ar gyfer cronfa ddata pyllau dŵr wedi'i ddatblygu yn Lloegr, prosiect tri cham. Ail gam i ganolbwyntio ar fonitro gan wirfoddolwyr a chanolbwyntio ar fioamrywiaeth. Bydd y trydydd cam yn cynnwys arolwg gan bobl gyffredin yn defnyddio citiau profi.
- Tri chwarter o'r arian i Loegr a chwarter i Gymru, angen arian cyfatebol.

**10.8 Cwestiynau**

- Gall CGBLlau gynghori ar achosion unigol trwy ffonio person cyswllt neu drwy lawrlwythiadau o wefan
- Angen hidlo ymholiadau a darparu rhestr o gynghorwyr.
- Byddai angen perchenogaeth ar y blwch negeseuon e-bost, Sean McHugh o bosibl yn bwydo'n ôl i'r panel.
- CGBLl, gweithwyr proffesiynol ym maes cadwraeth a'r cyhoedd gwybodus fyddai'r cwsmeriaid.
- Mae angen gwybodaeth leol ar gyfer ymholiadau lleol, mae cysylltiadau cyffredinol lleol wedi'u rhestru eisoes.
- Awgrymir defnyddio LinkedIn i ddechrau grŵp ar gyfer yr elfen Ecosystemau Dŵr Croyw. Gellid lanlwytho ymchwil, materion polisi a deddfwriaeth ac adolygu bylchau'n rheolaidd, ond mae angen manylion a phersonau cyswllt.
    - Cynghori arbenigol yn hytrach na lobïo yw rôl y GADC.
    - Angen osgoi dyblygu ymdrech e.e. ymateb i ymgynghoriadau.
    - Nid yw'r grŵp yn cynnwys cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru.

- A ddylai'r grŵp dŵr croyw ddarparu gwybodaeth am arferion da a'i hychwanegu i'r wefan? **(NB)**

**Cam gweithredu:**
**NB** i dynnu'r gair 'cynghori' o'r cynllun gwaith ond cadw 'cylch gorchwyl'.
**NB** i drafod aralleirio polisi a deddfwriaeth gyda Tracey Lovering.

### 10.9 Monitro

- Mae cynefinoedd dŵr croyw yn cael eu monitro gan gynlluniau sy'n bodoli eisoes, ond mae rhai bylchau a phroblemau gyda blaenddyfroedd.
- Mae Canolfannau Cofnodion Lleol yn gwneud rhywfaint o waith cydgysylltu arolygon rhywogaethau a chynefinoedd, ond mae'n bosibl y bydd problemau o ran rhannu technoleg gwybodaeth.
- Mae gan PondNet broses ar gyfer pyllau dŵr a llynnoedd bach.
- Angen nodi bylchau yn y data nad fyddant yn dod i mewn i gategori'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr neu'r tebyg, ac ychwanegu llinell o destun i awgrymu'r hyn y mae angen ei wneud.
- Hefyd angen cysylltu â'r Grwpiau Arbenigwyr Rhywogaethau ynghylch problemau rhywogaethau na chânt eu nodi yn rhywle arall, a'r hyn sy'n cael/nad yw'n cael ei wneud. Gwrthdrawiadau posibl rhwng rhywogaethau/cynefinoedd e.e. pyllau dŵr / madfallod dŵr cribog.

### 10.10 Coedwigaeth

- Mae gwaith cynllunio adnoddau coedwigaeth wedi dechrau. Helen Cariss yw'r person cyswllt.
- Bydd timau LIFE a thimau safle'n adolygu camau gweithredu ar gyfer safleoedd allweddol.

### 10.11 Dynodiadau

- Dylai mwy o wybodaeth fod ar gael ynghylch dynodiadau newydd ac ymestyn safleoedd nad ydynt wedi'u gwarchod ar hyn o bryd, yn enwedig safleoedd ar gyfer adar dŵr croyw. Enghraifft yw dau lyn ar Gadair Idris. Nododd **ALlJ** amharodrwydd i ddynodi safleoedd newydd.

**10.12 Cronfeydd data:** Nid oes gan y Grŵp Dŵr Croyw unrhyw gronfa ddata ar wahân i fapio blaenoriaethau.

**11. Unrhyw fusnes arall**

**11.1 Cypermethrin:** Parhau i ymchwilio iddo. Daeth nifer fawr o bobl i'r gweithdy a gynhaliwyd ym mis Mawrth. Bydd nodiadau'r cyflwyniad ar gael yn fuan ar wefan CNC.

**Cam gweithredu:** **BS** i gylchredeg copi o'r nodiadau o'r cyfarfod.

**11.2 Ymddeoliad:** Bydd **BS** wedi ymddeol erbyn y cyfarfod nesaf.

**12. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

18 Medi 2014